

# **CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI**

## **COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 12fed MAWRTH 2024** **AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **PRESENNOL** - Ceri Owen (Cad), Justin Davies, Judith Humphreys, Erfyl Williams, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Siân Dafydd, Harry Owen, Gareth Jones, Nigel Williams (Talysarn) a Cyng. Peter Thomas.

**YMDDIHEURIADAU** – Dylan Herbert (Penygroes), Dafydd Thomas (Nebo).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a rhoddwyd croeso arbennig i aelod newydd dros ward Talysarn Nigel Williams.

2. **DATGAN BUDDIANT** – Nid oedd neb yn datgan buddiant.

3. **CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 13EG CHWEFROR 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD** –

**Llwybr RB82 Llanllyfni** - ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd am y mater hwn - darllen yr ymateb i'r pwyllgor ac o hyn deallir mai llwybr troed ydyw a bod cofnod o'r 50au wedi ei gofnodi yn anghywir. Gofynnwyd i'r clerc basio'r ymateb yma ymlaen i Denise a Mike ac o hyn dim yn gweld y Cyngor Cymuned yn medru gwneud dim mwy am y mater.

**Cerbiau** - y cerbiau tu allan i'r Co-op a Threm Yr Wyddfa heb eu trwsio - angen dilyn fyny ar hyn.

**Tir Cwtin** – angen holi ein cyfreithwraig os wedi clywed unrhyw beth yn nôl gan gyfreithwyr Pwyllgor Cwtin.

**Golau Nadolig** - trafodwyd y pris a'r adroddiad a oedd wedi ei dderbyn gan RJ Electrics, cynigwyd ac eiliwyd i dalu'r gost o drwsio'r golau a gofyn am adroddiad blynyddol ganddynt.

**Sedd Wag Nantlle** - dim ymateb wedi dod i'r hysbyseb am y sedd wag. Gofyn i'r clerc roi'r hysbyseb fyny eto i weld.

**Argyfwng Costau Byw** - Judith wedi bod mewn trafodaeth gyda'r Orsaf ynglŷn â'r prosiectau a'r costau sydd ganddynt yn mynd ymlaen gyda hyn ac adroddwyd i'r pwyllgor llawn. Cynigwyd, er bod Judith yn rhoi'r wybodaeth yma ymlaen i'r cyngor ei bod hi a Justin ddim yn rhan o unrhyw benderfyniad fydd yn cael ei wneud ar y mater. Cynnig arall a dderbyniwyd oedd bod y Cyngor Cymuned yn rhoi nodyn allan yn gofyn am unrhyw syniadau eraill ar gyfer beth ellir cyfrannu tuag ato. Eiliwyd y cynnig yma, felly'r clerc i roi nodyn ar y dudalen Facebook.

**Materion Pentrefi** - teimlad bod angen i'r mater yma gael ei drafod ym mhob cyfarfod, felly penderfynwyd ei roi yn nôl ar yr agenda o fis nesaf ymlaen. Bydd yn cael ei drafod ar ddiwedd y cyfarfod heno.

Adroddwyd bob y wal ym Mynwent Macpela wedi cael ei thrwsio.

5. **ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR** - roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Cyng. Peter Thomas ymlaen llaw i'r cyfarfod. Aeth trwy'r adroddiad ac adrodd ar fater Pont Cae Du, Afon Tyddyn Agnes a bod y gwaith wedi ei ddechrau ar gae pêl-droed Talysarn Celts. Diolchwyd iddo am ei waith.

6. **CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU - 27ain Chwefror - cyfarfod i drafod Prydles Tir Cwtin** - yn dilyn o'r cyfarfod hwn roedd e-bost wedi ei yrru i bawb gydag awgrymiadau o beth ddylid ei roi ar y brydles ddrafft. Yn dilyn o ymatebion gofynnwyd i'r clerc basio'r awgrymiadau ymlaen i'n cyfreithwyr gael drafftio prydles.

7. **TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r daflen ariannol i edrych drosti – nid oedd dim yn codi.

**Yswiriant** - wedi derbyn dyfynbris gan y cwmni Zurich gydag opsiwn o gontract 3 mlynedd am bris gostyngedig. Angen edrych fod popeth o'r asedau ar y polisi - angen adio'r golau Nadolig mwyaf diweddar iddo.

**Pennu dyddiad is-bwyllgor cyllid** – penderfynwyd cynnal yr is-bwyllgor nos Fercher, 20fed Mawrth am 7pm yn y Ganolfan Talysarn er mwyn trafod cyllideb drafft 2024/25 a materion eraill fydd yn codi.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - \_\_\_\_\_ Dyddiad - \_\_\_\_\_

## **8. LLWYBRAU A MYNWENTYDD –**

**Llwybr Tramwy rhif 6** - cytunodd Cyng. Peter Thomas fynd at y llwybr a thynnu llun o'r man cychwyn er mwyn i'r clerc ei basio mlaen i'r sawl a gysylltodd. Er gwybodaeth mae'r llwybr dan sylw yn mynd drwy ardd tŷ Allt Felen Uchaf ac felly rhai o'r cyhoedd ddim yn sylweddoli hyn. Diolchwyd i Cyng. P Thomas am gytuno i wneud hyn.

**Gosod peipen ddŵr Mynwent Macpela** - angen paratoi hysbyseb er mwyn ei roi yn Lleu, y wefan a thudalen Facebook ar gyfer y gwaith hwn.

**9. YMGYNGHORIAD: CYSYLLTIADAU RHYNGLYWODRAETHOL CYLLIDOL** - yn dilyn derbyn yr e-bost am hwn a'i yrru i'r cynghorwyr roedd Judith wedi paratoi ymateb ar y mater pwysig hwn. Cytunodd pawb i'r clerc basio'r ymateb ymlaen i'r ymgynghoriad a diolchwyd i Judith am ei gwaith gyda hwn. Dyma'r ymateb i'w yrru

“Rydym yn gynyddol bryderus am y modd y mae'r strwythurau ariannu rhynglywodraethol yn mynd rhagddynt. Rydym yn ymwybodol iawn fel Cyngor Cymuned am y toriadau sy'n wynebu ein Cyngorau Sir ac sydd yn effeithio, yn anochel yn y pendraw arnom ninnau fel Cyngor Cymuned, ac mae hyn i gyd oddi fewn i gyd-destun argyfwng costau byw. Yn ogystal mae'n Cyngor Cymuned yn gwasanaethau ardal o amddifadedd lluosog. Mae sicrhau llif arian pwrpasol a phriodol o Lundain i Gymru yn gwbl allweddol a chreiddiol er mwyn gwarchod a chynnal ein gwasanaethau ynghyd a chynnal cymdeithas hyfyw. Rydym yn gwerthfawrogi felly yn fawr yr ymgynghoriad hwn ac yn ddiolchgar i chi fel Pwyllgor am fynd i'r afael á hyn ac am eich gwaith pwysig. Y canfyddiad yw bod anghysondebau yn y modd y mae arian yn trosglwyddo o Lundain i'r cenhedloedd eraill yn y DU ac mae ansicrwydd dybryd i'w weld o ran gweithdrefnau'r sustem bresennol. Hoffem gefnogi a chymeradwyo unrhyw gamau i graffu ar y drefn a'i diwygio fel bo'r angen, er mwyn sicrhau ffrwd deg o arian i Gymru.”

## **10. CEISIADAU CYNLLUNIO**

**C24/0167/22/DT** – 59 Stryd Fawr, Penygroes – adeiladu sied ar gyfer defnydd domestig – trafodwyd bod y cais hwn wedi ei wrthod gan Gyngor Gwynedd ddwywaith oherwydd maint yr adeilad. Mae'r cais newydd hwn yn dangos ei fod yn llai – nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cais hwn.

**C24/0173/22/DT** – Tyddyn Difyr, Clogwyn Melyn, Penygroes – dim gwrthwynebiad i'r cais hwn.

**11. GOHEBIAETH** - roedd pawb wedi derbyn copïau o ohebiaeth a oedd wedi eu derbyn dros y mis. Llongyfarchwyd cymuned Talysarn ar eu llwyddiant gyda'r cais am ganiatâd i greu gardd gymunedol.

## **12. MATERION ARIANNOL**

Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00** - TALU

Nia Jones – stampiau = **£10.00** - TALU

Nia Jones – golau Coeden Nadolig Talysarn = **£26.95** - TALU

Archwilio Cymru – ffi archwiliad 2019/20 = **£385.00** – CYN TALU ANGEN EDRYCH FEWN I PAM YN DERBYN LLAWER O ANFONEBAU YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU

Aaron Hughes – atgyweirio wal Mynwent Macpela = **£1644.00** - TALU

UnLlais – aelodaeth UnLlais 2024/25 = **£818.00** – TALU ond allan o gyllideb 2024/25.

## **13. UNRHYW FATER ARALL**

**Meddygfa Corwen House** - pryderon wedi eu codi gan aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r cyhoeddiad bod perchnogion y feddygfa yn cymryd drosodd Meddygfa Betws Y Coed. Angen llythyru Corwen House a Betsi Cadwaladr am hyn.

**Parcio ar y ffordd - Felin Gerrig, Llanllyfni** - e-bost wedi ei dderbyn gan aelodau o'r cyhoedd yn datgan pryder am gerbydau sydd wedi eu parcio yn beryglus yn y ffordd yn Felin Gerrig, Llanllyfni. Angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am hyn - ond angen casglu tystiolaeth yn gyntaf.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - \_\_\_\_\_ Dyddiad - \_\_\_\_\_

## **MATERION PENTREFI –**

**Llanllyfni** - pryder fod y twll ar Lôn Ddŵr dal i suddo a dim yn cael ei wneud am y mater. Gofynnwyd i Cyng. Peter Thomas fynd ynglŷn â hwn eto.

**Talysarn** - maes parcio'r ganolfan - y bariau ddim i'w weld yn cael eu cau - esboniwyd fod y bariau wedi malu ac yn disgwyl iddynt gael eu trwsio. Gweld bod rhai o'r cerbydau mawr yn nôl yna felly bydd hyn angen sylw unwaith eto. Ffordd yr Eglwys - twll wedi ymddangos yn y ffordd dros y ffordd i'r un sydd newydd gael ei lenwi. Cyffordd Ffordd Carvour a Bryn Celyn - twll mawr yn y ffordd angen sylw. Troad fewn i Bron Eifion - y ffordd yma yn torri fyny a cherrig mân ayyb o'r tyllau yn llifo i'r ffordd. Cyffordd Ffordd yr Eglwys a Bryn Celyn - 'motorhome' a oedd yn cael ei barcio yn y maes parcio bellach yn parcio wrth y gyffordd sydd yn ei gwneud yn amhosib gweld yn saff i dynnu allan. Llifogydd yn aml yn y ffordd wrth Gwernon - adroddwyd bod y gyliau wedi eu glanhau felly angen cadw golwg ar y sefyllfa. Pryderon am ddiogelwch y bysiau yn codi a gollwng pobl wrth y troad Ffordd Hyfrydle er nad oes safle bws yna. Cyng. Peter Thomas am edrych fewn i hyn.

**Penygroes** - cylchdro Penygroes / Llanllyfni'r tarmac yn cracio ac yn dyllog - angen sylw. Cyflwr y palmant ger mynedfa hen safle Express Motors angen sylw - cysylltu â grŵp Cynefin am hyn. Y ffordd o'r Co-op i'r sgwâr angen ei hasesu. Adroddwyd bod PCSO Gethin wedi gorffen bellach ond bod yna aelod newydd - Claire Roberts wedi cychwyn - angen gofyn iddi ddod i gyfarfod am sgwrs.

Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau o fewn Cyngor Gwynedd am y materion hyn.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol a bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal nos Fawrth, 9fed Ebrill 2024 am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - \_\_\_\_\_ Dyddiad - \_\_\_\_\_